

# CHWARAEON, TEITHIO A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Dilynwch ôl troed eich arwyr yn y byd chwaraeon, cadwch ein cymunedau'n ddiogel gyda swydd yn y gwasanaethau cyhoeddus neu gadewch i'ch gyrfa hedfan yn uchel yn y diwydiant teithio.

Darllenwch am y gwahanol lwybrau gyrfaedd y gallech chi eu dilyn:

## Ymarfer Corff a Ffitrwydd

A ydych chi'n frwdfrydig, yn canolbwyntio ar ffitrwydd ac eisiau helpu pobl i aros yn iach? Mae swyddi mewn chwaraeon yn cynnwys hyfforddwr personol, hyfforddwr ffitrwydd a hyfforddwr tîm. Gallwch ddewis gweithio mewn canolfannau hamdden ac arenâu cyhoeddus mewn swyddi gweinyddiaeth a rheoli.

## Arwain Gweithgareddau

A ydych chi'n actif ac yn hoffi'r awyr agored? Beth am wneud gyrfa o'ch diddordeb? Cewch arwain gweithgareddau megis heicio a dringo creigiau, yn hyfforddi grwpiau o blant neu oedolion. Gall oriau fod yn hysblyg, ac mae'n wych i gyfarfod â phobl newydd. Gallai hyn arwain at stiwardio digwyddiadau, yn sicrhau bod y dorf yn ddiogel a dan reolaeth mewn digwyddiadau cyhoeddus.

## Gwasanaethau teithio

Helpwch deithwyr fynd ar daith eu breuddwydion drwy weithio yn y diwydiant teithio. Byddwch yn rhoi cyngor am y llefydd gorau i ymweld â nhw ac yn gallu cael y fargen orau. Gallech chi fod yn gweithio ar y stryd fawr mewn asiantaethau teithio neu mewn canolfannau galwadau.

## Criw Caban Awyr / Rheoli Awyrennau o'r Ddaear

Gadewch i'ch gyrfa fynd â chi i lefydd uwch drwy weithio fel criw caban; mae'r buddion yn cynnwys teithio am ddim, profiadau newydd ac nid oes yr un diwrnod yr un fath. Cewch brofiad o hedfan gyda'ch traed yn gadarn ar y ddaear drwy weithio fel staff cofrestru, staff bagiau, diogelwch a rheolwr traffig awyr.

## Cyfiawnder

Wedi'ch buddsoddi yn ein diogelwch? Beth am weithio yn y gwasanaethau cyhoeddus? Os ydych eisiau bod

yn ei chanol hi, yna gallai swyddi yng ngwasanaeth yr heddlu, tân a gwasanaethau argyfwng fod yn ddefnyddol i chi. Neu efallai bod cyfiawnder yn bwysig i chi? Gweithiwch yn y llysoedd, carchardai a gwasanaethau prawf. Mae'r sector hwn yn ddefnyddol i'r rheiny sy'n sicrhau na wnaethpwyd rheolau i'w torri.

## Llywodraeth leol


Eisiau gwasanaethu'ch cymuned a gwneud gwahaniaeth? Mae llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau megis addysg, iechyd amgylcheddol, eiddo a llawer mwy. Gallwch symud o gwmpas i ehangu'ch gwybodaeth o wahanol feysydd. Trwy ymuno â'r diwydiant hwn, byddwch mewn cwmni da; cynghorau yw'r cyflogwyr mwyaf yn eu hardaloedd.

## Y Lluoedd Arfog

Amddiffynnwch ein hanrhydedd ac ymunwch â'r Lluoedd Arfog. Mae angen i chi fod yn heini'n gorfforol, gallu gweithio mewn tîm a bod yn hapus i weithio dramor am gyfnodau hirion. Gan weithio mewn sefyllfaedd eithafol a dwys, byddwch yn dawel eich meddwl a synhwyrol. Mae swyddi ar gael yn yr Awyrlu Brenhinol (RAF), y Llynges Frenhinol neu'r Fyddin. Yn ogystal ag amddiffyn, byddwch yn helpu gyda chymorth dyngarol, cymorth wedi trychinebau a chenadaethau chwilio ac achub.

## Dolenni Defnyddiol

[www.sportsandplay.com](http://www.sportsandplay.com) Ffederasiwn Cymdeithasau Chwaraeon a Chwarae  
[www.itt.co.uk](http://www.itt.co.uk) Y corff proffesiynol dros Deithio a Thwristiaeth  
[www.forces.net/news](http://www.forces.net/news) Mewnwelediadau a newyddion sy'n gysylltiedig â lluoedd arfog y DU



**£26,726**  
**£13.89/AWR**  
 CYFLOG NODWEDDIADOL  
 AR GYFARTALED  
 (CYMWYS) YN Y DIWYDIANT  
 HWN

**CYFANSWM Y SWYDDI YN Y DIWYDIANT HWN**  
**66,635 CYMRU**  
**1,177,547 DU**



**MAE DROS 600,000 O BOBL YN GWEITHIO MEWN CHWARAEON A FFITRWYDD LEDLED Y DU MEWN DROS 230,000 O SEFYDLIADAU GWAHANOL**

**A OEDDECH CHI'N GWYBOD BOD RHEOLWYR TRAFFIG AWYR YN ENNILL AR GYFARTALED!**

(ffynhonnell EMSI Q1 2018 Dataset / Gyrfa Cymru)

**MAE 61% O FUSNESAU TWRISTIAETH YN ADRODD MAI SGILIAU TRIN CWSMERIAID SYDD Â'R GALW MUYAF WRTH IDDYNT CHWILIO AM WEITHWYR NEWYDD**

## Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

	Hyd	BG	C	B
Gwasanaethau Cyhoeddus - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓	
Gwasanaethau Cyhoeddus (Diploma Estynedig) - Lefel 3	2 Flynedd	✓	✓	✓
Chwaraeon - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓	
Chwaraeon (Datblygu, Hyfforddi a Ffitrwydd) (Diploma Estynedig) - Lefel 3	2 Flynedd	✓	✓	
Cyfarwyddyd Iechyd, Ffitrwydd ac Ymarfer Corff - Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	✓
Hyfforddiant a Chyfarwyddyd Personol - Lefel 3	1 Flwyddyn		✓	✓
Hyfforddiant Personol - Lefel 3	1 Flwyddyn	✓		✓
Teithio a Thwristiaeth - Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	
Teithio a Thwristiaeth (Diploma Estynedig) - Lefel 3	2 Flynedd		✓	
Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus (Astudiaethau Galwedigaethol) - Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓	
Hyfforddi a Datblygu Chwaraeon - Gradd Sylfaen	1 Flwyddyn		✓	

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk) | [admissions@coleggwent.ac.uk](mailto:admissions@coleggwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys / B - Campws Brynbuga

